

REES, WILLIAM HOPKYN (1859 - 1924), gweinidog gyda'r Annibynwyr, cenhadwr dan Gymdeithas Genhadol Llundain, ac ieithydd o fri

Enw: William Hopkyn Rees

Dyddiad geni: 1859

Dyddiad marw: 1924

Priod: Margaret Charlotte Rees (née Harrison)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, cenhadwr dan Gymdeithas Genhadol Llundain, ac ieithydd o fri

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Evan Lewis Evans

Ganwyd 24 Ebrill 1859, yng Nghwmfahan, Morgannwg. Aeth i Goleg Annibynnol y Bala yn 1877, a bu'n weinidog yn Llechryd a Ffynnonbedr o 1881 i 1883, pryd yr hwyliodd i'r maes cenhadol yng ngogledd China, ef a'i briod, Margaret Charlotte Harrison o Goedpoeth. Ymgartrefodd yn Chi Chou yn 1888, lle y sefydlodd orsaf. Aeth trwy helyntion y gwrthryfel yn 1900, ac anrhydeddwyd ef â'r 'Rhuban Glas' ac â gradd Mandarin am ei ran yn yr heddychu. Symudwyd ef i Goleg Diwinyddol Undebol Peking ac i adran yr Ysgol Iaith i Genhadon. Dewiswyd ef i'r bwrdd golygyddol i ddiwygio'r *Hen Destament* yn yr iaith Fandarín, ac yn aelod o'r cwmni o ysgolheigion yn Shanghai a ofalai am lenyddiaeth Gristnogol i China; ac yn 1915 gwnaed ef yn gyd-ysgrifennydd, â **Timothy Richard** ynglŷn â llenyddiaeth Gristnogol i China, ac yn ddiweddarach yn ysgrifennydd. Yn 1919 gwnaed ef yn aelod o fwrdd golygyddol y *Chinese Recorder*. Ymddiswyddodd yn 1921, oherwydd i'w iechyd ballu, ac etholwyd ef yn athro Chinaeg ym Mhrifysgol Llundain. Cyhoeddodd amryw lyfrau, megis *China a'r Chineaid*, 1906; *Griffith John o China*, 1901; *Jonathan Lees of Tientsin*; a *How to Study Chinese*, 1918. Bu farw yn Llundain, 4 Awst 1924.

Awdur

Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans, (1898 - 1978)

Ffynonellau

H. T. Jacob, *Hopkyn Rees, China sef, trem ar fywyd a llafur y Parch. William Hopkyn Rees, D.D.* (Llundain 1925)

E. Lewis Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol, sef hanes ei Chychwyn* (1945)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734634

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Evans, E. L., (1953). REES, WILLIAM HOPKYN (1859 - 1924), gweinidog gyda'r Annibynwyr, cenhadwr dan Gymdeithas Genhadol Llundain, ac ieithydd o fri. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-HOP-1859>

Copy

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government